Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant | St David's Adoption Service

AdoptionUK
Teulu gyda'n gilydd
Together we're family



# GWASANAETH CYFRYNGOL I RIENI SYDD WEDI CAEL EU HEFFEITHIO GAN FABWYSIADU HANESYDDOL

### CEFNOGAETH I RIENI Y CAFODD EU PLENTYN EI FABWYSIADU CYN 1976

Fel rhiant i blentyn wedi'i fabwysiadu, efallai eich bod chi wedi cyrraedd cyfnod yn eich bywyd pan hoffech chi gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth gyda'r golled hon.

**CANLLAW I RIENI SYDD WEDI CAEL EU HEFFEITHIO GAN FABWYSIADU HANESYDDOL.**

# CYFLWYNIAD

Mae'r Gwasanaeth Cyfryngol Cymru Gyfan yn benodol yn cefnogi rhieni y cafodd eu plentyn ei fabwysiadu cyn 1976. Rydym ni'n deall, fel rhieni, efallai y byddwch chi am gael mwy o ddealltwriaeth am achos mabwysiadu eich plentyn ac, os yw'n bosibl, ceisio cysylltu â nhw a chwrdd â nhw.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth gan Wasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant a Adoption UK, ar y cyd â'r Asiantaethau Mabwysiadu Rhanbarthol yng Nghymru. Nod y gwasanaeth yw eich cefnogi yn effeithiol i gael dealltwriaeth, ac os yw'n bosibl olrhain a chysylltu â'ch plentyn a rhoi cymorth cwnsela i chi drwy gydol y broses os ydych chi'n gofyn amdano.



# YNGLŶN Â GWASANAETH MABWYSIADU DEWI SANT

Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant | St David's Adoption Service

Fel Asiantaeth Fabwysiadu Gwirfoddol gofrestredig mae Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant yn cynnig gwasanaeth cyfryngol i rieni sy'n dymuno cael mwy o ddealltwriaeth o achos mabwysiadu eu plentyn.

Rydyn ni yma i weithredu fel gweithiwr proffesiynol cefnogol i'ch helpu chi drwy'r hyn a all fod yn broses emosiynol. Rydym ni'n deall y bydd wedi cymryd peth amser i chi benderfynu gofyn am fwy o wybodaeth am fabwysiadu eich plentyn ac rydym ni yma wrando arnoch chi, eich arwain a'ch cefnogi.

Yr enw ar y gwasanaeth rydym ni'n ei gynnig yw **Gwasanaeth Cyfryngol.**



# GWASANAETH CYFRYNGOL

**Efallai eich bod chi wedi gwneud penderfyniad yr hoffech chi gael mwy o ddealltwriaeth ynghylch achos mabwysiadu eich plentyn, ac efallai y byddwch chi'n dymuno, os yn bosibl, olrhain ac mewn rhai achosion, cysylltu â'ch plentyn mabwysiedig. Rydyn ni yma i helpu i chwilio am eich plentyn mabwysiedig ac, os dymunwch, gallwn gysylltu â nhw ar eich rhan. Byddwn hefyd yn cynnig cymorth i sefydlu cyswllt a pharatoi ar gyfer aduniadau posibl.**

## MAE ELFENNAU'R BROSES HON YN CYNNWYS:

- **Cyfarfod trafod cychwynnol gyda chi i wirio hunaniaeth a chael caniatâd.**
- **Ymchwil a wnaed i chwilio am aelodau o'r teulu biolegol.**
- **Cysylltiad cychwynnol ag aelodau o'r teulu biolegol.**
- **Darparu adborth i chi fel y person wedi'i fabwysiadu.**
- **Cefnogaeth gyda threfniadau cyswllt.**

Yn ystod y broses, byddwn hefyd yn gwirio i weld a yw eich plentyn wedi mynegi barn ynghylch cyswllt. Weithiau, efallai eu bod wedi gofyn am beidio â chysylltu â nhw, a byddwn yn trafod hyn gyda chi ac yn eich cefnogi gyda'r wybodaeth hon.

Rydym ni'n cydnabod y bydd hwn yn gyfnod emosiynol a gall fod yn anodd aros am ymateb. Rydym ni yma i'ch cefnogi ac i gysylltu â'ch plentyn yn sensitif ac yn gyfrinachol ar eich rhan. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i helpu i sefydlu cyswllt, cyfnewid llythyrau, a pharatoi ar gyfer aduniad posibl.

Rydym ni'n gwybod y gall cael cymorth cyfryngol proffesiynol a phrofiadol yn ystod y cyfnod hwn helpu i bennu canlyniadau da a bod y cymorth hwn yn rhoi sicrwydd, arweiniad a gwybodaeth yn ystod y broses emosiynol hon. Gallwch hefyd gael cymorth pellach drwy'r gwasanaethau a gynigir gan Adoption UK.

# YNGLŶN AG ADOPTION UK

AdoptionUK
Teulu gyda'n gilydd
Together we're family

Adoption UK yw'r brif elusen ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan fabwysiadu.

Rydym yn gweithio gyda mabwysiadwyr, pobl wedi'u mabwysiadu, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rydym hefyd yn gweithio gyda theuluoedd sy'n berthnasau a'r rhai sy'n magu plant sydd â gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

# PATH

**PATH yw gwasanaeth therapiwtig Adoption UK. Rydym ni'n dîm o seicolegwyr, seicotherapyddion, ymarferwyr therapiwtig, a gweithwyr cymorth cymheiriaid. Rydym ni'n cynnig ystod eang o gymorth therapiwtig i bobl sydd wedi'u heffeithio gan fabwysiadu a'r rhai sy'n gofalu am blant na allant fyw gyda'u rhieni biolegol.**

AdoptionUK
Teulu gyda'n gilydd
Together we're family

## CEFNOGI'R RHAI SYDD WEDI'U HEFFEITHIO GAN FABWYSIADU HANESYDDOL – PATHWAY OEDOLION SYDD WEDI'U HEFFEITHIO GAN FABWYSIADU

Mae'r PATHway Oedolion sydd wedi'u heffeithio gan Fabwysiadu yn ymateb i'r gydnabyddiaeth y gall mabwysiadu effeithio ar bobl drwy gydol eu bywyd ac nid yw dod o hyd i gymorth arbenigol bob amser yn hawdd.

Mae ymchwiliadau ac adroddiadau diweddar wedi tynnu sylw at straeon poenus mamau a phlant a wahanwyd cyn 1976 a'r effaith barhaus mae mabwysiadu wedi'i chael ar eu bywydau.

Mae mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i rieni wnaeth golli eu plant o dan yr amgylchiadau anodd hyn gael mynediad at gymorth arbenigol. Mae rhwystrau wedi bod yn eu lle yn cyfyngu ar yr adnoddau sydd ar gael, ac mae rhieni wedi cael eu gadael yn rhy hir yn gorfod ymdopi heb gymorth i reoli'r golled sylweddol hon.

Mae hyn yn cael ei baru â'r ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i bobl sydd wedi'u mabwysiadu gael mynediad i'w cofnodion mabwysiadu a deall stori eu bywyd. Fodd bynnag, gall hyn fod yn broses heriol ac nid yw cefnogaeth emosiynol ar gael bob amser.

Mae Pathway Oedolion sydd wedi'u heffeithio gan Fabwysiadu yn brosiect peilot sydd wedi'i ddatblygu i lenwi'r bwlch hwn ac i ddarparu cefnogaeth therapiwtig a chyfoedion ar adeg a all fod yn anodd ei lywio ar ei ben ei hun.

## BETH YW PATHWAY OEDOLION SY'N CAEL EU HEFFEITHIO FABWYSIADU?

Mae Pathway Oedolion sydd wedi'u Heffeithio gan Fabwysiadu yn wasanaeth yn bennaf ar gyfer pobl wedi'u mabwysiadu sydd wrthi, neu'n ystyried, yn cael mynediad at eu cofnodion mabwysiadu neu wasanaeth cyfryngol. Mae Pathway yn gweithio ar y cyd â Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant a'r asiantaethau mabwysiadu rhanbarthol i nodi'r rhai a allai fod angen cymorth emosiynol pellach arnynt ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, rydym ni'n cydnabod y gall rhieni brofi effaith gydol oes colli plentyn yn yr amgylchiadau hyn ac efallai y bydd angen cymorth therapiwtig arnynt i lywio'r broses hon.

Yn ystod y cynllun peilot, gall PATH gynnig nifer fach o leoedd ar gyfer cymorth therapiwtig unigol gyda seicolegydd neu seicotherapydd. Byddai hyn yn cynnwys hyd at 15 sesiwn therapi unigol. Mae'r cynnig hwn ar gyfer pobl wedi'u mabwysiadu a hefyd ar gyfer rhieni yn yr amgylchiadau hyn.

# AR GYFER PWY MAE PATHWAY?

Mae Pathway ar agor i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan arferion mabwysiadu cyn 1976, pan newidiodd y ddeddfwriaeth. Y bwriad yw darparu cymorth therapiwtig i'r rhai sydd wrthi'n cyrchu gwybodaeth am fabwysiadu eu plentyn neu sy'n ystyried dod i gysylltiad â'u plentyn wedi'i fabwysiadu. Efallai y bydd adegau pan fydd yr anawsterau mae rhywun yn eu profi yn ei gwneud hi'n rhy anodd iddynt ddelio â chwilio am eu plentyn wedi'i fabwysiadu neu ystyried cyswllt. Gallai hyn fod oherwydd bod angen lefel ychwanegol o gefnogaeth arnynt neu gallai fod oherwydd natur eu profiadau.

Gall hyn fod ar unrhyw gam o'r broses o gael gafael ar wybodaeth neu ystyried cyswllt â'u plentyn wedi'i fabwysiadu. Gall hyn hefyd fod pan fyddant yn dal i ystyried a ddylid bwrw ymlaen ai peidio. Bydd pawb yn cael eu heffeithio gan y broses mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol adegau ac mae'r gwasanaeth ar gael pryd bynnag y bydd angen cymorth.

### MEINI PRAWF AR GYFER CYFEIRIO ATGYFEIRIO AT PATHWAY -

- Mabwysiadu cyn 1976
- Angen cymorth pellach i ymdopi ag effaith emosiynol mabwysiadu

### PWY NAD YDYNT YN GYMWYS I PATHWAY?

Nid yw Pathway yn addas i unrhyw un sy'n ymwneud â chymorth therapiwtig arall. Nid yw Pathway yn addas i unrhyw un sy'n profi anawsterau iechyd meddwl difrifol neu barhaus. Nid yw Pathway yn cynnig gwasanaeth argyfwng na gwasanaeth y tu allan i oriau ac felly ni fyddai'n addas i unrhyw un sydd angen cymorth dwys. Yn yr achos hwn, byddai gwasanaethau statudol, fel meddyg teulu neu wasanaethau iechyd meddwl eraill, yn fwy priodol.

# ATGYFEIRIADAU

### SUT YDW I'N CAEL ATGYFEIRIAD AM GYMORTH?

Gwneir yr holl atgyfeiriadau at y llwybr oedolion wedi'u heffeithio gan fabwysiadu trwy weithiwr cymdeithasol. Os ydych chi'n ymwneud â Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant neu unrhyw un o'r asiantaethau mabwysiadu rhanbarthol, yna gallwch ofyn i'ch gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd wneud atgyfeiriad ar eich rhan.

### BETH SY'N DIGWYDD UNWAITH Y BYDD ATGYFEIRIAD WEDI'I WNEUD?

Unwaith y derbynnir atgyfeiriad, bydd tîm PATH yn ei drafod er mwyn sicrhau bod gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom. Yna bydd rhywun o dîm PATH yn cysylltu â chi i drefnu ymgynghoriad â chlinigydd. Bydd hyn er mwyn sicrhau mai'r llwybr yw'r gefnogaeth gywir i chi. Byddwch chi'n derbyn cytundeb gwasanaeth sy'n amlinellu'r cymorth a gynigir, disgwyliadau ac amserlenni y gwasanaethau, a'n polisïau ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth.

### GWERTHUSIAD O'R GWASANAETH

Gan mai gwasanaeth peilot yw hwn, mae'n bwysig ein bod ni'n casglu gwybodaeth i'n helpu i ddeall pa mor effeithiol mae'r gwasanaeth wedi bod a beth mae pobl wedi ei weld yn ddefnyddiol neu fel arall. Er mwyn ein helpu gyda hyn, byddwn yn gofyn i chi lenwi rhai holiaduron cyn i chi ddechrau derbyn cymorth ac eto ar y diwedd. Rydym ni hefyd yn gwerthfawrogi eich adborth ar y gwasanaeth rydych yn ei dderbyn a byddem yn gofyn i chi ddarparu hyn pan ddaw eich cefnogaeth i ben.

### COST Y GWASANAETH

Mae'r cynllun peilot yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a bydd yn cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy gydol eu cefnogaeth fel y nodir yn eu cytundeb gwasanaeth.

# OS OES GENNYCH CHI SYLW, PRYDER NEU RESWM DROS GWYNO -

Mae Adoption UK bob amser yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth cydymdeimladol, cwrtais a phroffesiynol i'w aelodau a'i ddefnyddwyr gwasanaethau. Er ein bod yn gobeithio na fydd ein gwasanaethau yn arwain at unrhyw gwynion, byddwn yn ymateb yn deg, yn gadarnhaol ac yn brydlon i gwynion gan yr aelodau a'r defnyddwyr gwasanaeth pan fyddan nhw'n teimlo nad ydym wedi bodloni eu disgwyliadau na'u hanghenion.

At hynny, rydym bob amser yn falch o glywed barn yr aelodau a'r defnyddwyr am ein gwasanaethau, er mwyn i ni allu cymryd camau i adolygu a gwella ein gwasanaethau, yn ôl yr angen. Gall y safbwyntiau hyn fod yn gadarnhaol, yn ogystal ag yn negyddol, a byddwn yn eu croesawu fel adborth adeiladol ar ein gwaith.

Bydd pob cwyn yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

**Cysylltwch â ni am fanylion llawn am ein Polisi a'n Gweithdrefn Gwyno.**

Yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant rydym ni bob amser yn ceisio darparu'r gwasanaeth o'r safon uchaf ac rydym ni'n gobeithio y bydd ein gwasanaeth yn bodloni eich disgwyliadau. Rydym ni'n derbyn y gallai pryderon godi ar adegau y byddwch chi'n dymuned eu codi a'u trafod, a byddwn ni bob amser yn gwrando ar y rhain yn agored ac yn deg. Os ydych chi'n teimlo'n anfodlon â'r gwasanaeth rydych chi wedi'i dderbyn, yna rydyn ni'n eich croesawu i gysylltu â ni.

Fel sefydliad myfyriol a dysgu rydym ni bob amser yn croesawu eich barn am y gwasanaeth rydych wedi'i dderbyn y gallwn barhau i ddatblygu a thyfu i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y bobl rydym ni'n gweithio gyda nhw orau. Bydd canmoliaeth, adborth adeiladol neu gwynion i gyd yn cael eu trin yn barchus, yn sensitif ac yn gyfrinachol.

**Gallwch ofyn am fanylion llawn ein polisi a gweithdrefnau cwyno trwy siarad â'ch gweithiwr cymdeithasol neu anfon e-bost at info@stdavidscs.org.**

AdoptionUK
Teulu gyda'n gilydd
Together we're family

Wales Office
Adoption UK Cymru, Office 9 Big Yellow,
65 Penarth Road,
Cardiff, CF10 5DL
Registered Charity No. 1160647 (England & Wales)
Registered Charity No. S0037892 (Scotbnd)
Adoption UK is a company limited by guarantac
Comparty Number 9454381

Gweledigaeth: Cymdeithas lle gall pob plentyn sy'n methu byw gyda'i deulu genedigol ffynnu yn ystod plentyndod a lle mae ganddo siawns gyfartal o ddyfodol disglair fel oedolyn.
Diben: Sicrhau'r gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn i blant sy'n methu byw gyda'u teuluoedd genedigol, o'u plentyndod i fod yn oedolyn.

Ein gweledigaeth yw bod pob plentyn sydd â chynllun mabwysiadu yng Nghymru yn cael teulu cariadus ac yn cael ei gefnogi i fod y gorau y gallant fod.

Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant | St David's Adoption Service

St David's Children Society
28 Park Place
Cardiff
CF10 3BA
St David's Children Society is a registered charity with the Charity Commission for England and Wales (Registration No. 509163 and a company limited by Guarantee (Registered 1546688)